# Darpariaeth newyddion BBC Scotland

Ymgynghoriad ar gais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd ar 3 Mai 2024

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 4 Mehefin 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3
2. Cefndir ........ 5
3. Asesu Cais y BBC ........ 9


## Atodiad


A1. Fframwaith Cyfreithiol ........ 16
A2. Amod diwygiedig arfaethedig y Drwydded Weithredu ........ 19
A3. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 20
A4. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ........ 21
A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ........ 24
A6. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ........ 25
A7. Y cwestiwn ymgynghori ........ 27
A8. Cyflwyniad y BBC ........ 28

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi safbwynt dros dro Ofcom ar gais gan y BBC i newid y cwota newyddion yn ei Drwydded Weithredu ar gyfer sianel BBC Scotland. Mae'r BBC yn ceisio lleihau nifer yr oriau o newyddion sy'n ofynnol yn ystod oriau brig o 250 awr y flwyddyn galendr i 125 awr. Mae'n awgrymu y bydd hyn yn ei alluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes, drwy ail-lunio ei ddarpariaeth.

1.2 Mae darparu newyddion a materion cyfoes dibynadwy ac o ansawdd uchel yn ganolog i gylch gwaith y BBC. Yn y byd sydd ohoni, mae'n arbennig o bwysig bod y BBC yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd i'w helpu i ddeall materion cymhleth, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

1.3 Mae'r BBC wedi cynnig lansio rhaglen newyddion rhanbarthol 30 munud newydd i'w darlledu am 7pm, bum diwrnod yr wythnos ar sianel BBC Scotland, yn lle'r rhaglen newyddion awr o hyd bresennol a gaiff ei darlledu bob nos, *The Nine*.[1] Mae hefyd yn cynnig nifer o newidiadau eraill i'r ddarpariaeth newyddion yn yr Alban sy'n berthnasol wrth i ni ystyried cais y BBC, ond nid ydynt yn amodol ar ein cymeradwyaeth reoleiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys: ymestyn *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland i un awr sawl gwaith y flwyddyn; cyfres newydd o bodlediadau materion cyfoes sy'n canolbwyntio ar yr Alban a fydd ar gael ar BBC Sounds, BBC iPlayer ac yn cael ei darlledu ar y teledu; gwasanaeth newyddion ar-lein gwell ar BBC Scotland; ac ymestyn y rhaglen *Debate Night* yn ystod 2024.[2]

1.4 Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn gwerthfawrogi newyddion a materion cyfoes, ond mae'r ffordd maen nhw'n dewis cael gafael ar y cynnwys hwn yn parhau i newid. Yn yr Alban, yn unol ag ymddygiad cynulleidfaoedd ledled y DU, bu gostyngiad graddol yn nifer y bobl sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu. Mae cyrhaeddiad newyddion cenedlaethol y DU a newyddion rhanbarthol ar deledu hefyd wedi gostwng, er bod lefelau gwylio newyddion rhanbarthol yn yr Alban yn uwch, ar y cyfan, nag ar draws y DU drwyddi draw. Mae cyfanswm yr oedolion sy'n gwylio sianel BBC Scotland wedi gostwng ers 2019 ac mae ei rhaglen newyddion flaenllaw *The Nine* wedi colli gwylwyr bob blwyddyn ers 2020. O gymharu, mae cyfran yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio newyddion ar-lein yn parhau i gynyddu, ac mae tua dwy ran o dair o oedolion yn cael eu newyddion fel hyn.[3]

1.5 Wrth ystyried cais y BBC, rydym wedi asesu, ymysg ffactorau eraill, sut bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael eu gwasanaethu'n dda o ran cynnwys newyddion a materion cyfoes. Rydym hefyd wedi ystyried effaith bosib newidiadau arfaethedig y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

[1] Ar hyn o bryd, mae *The Nine* yn cael ei darlledu am 9pm nos Lun i nos Iau ar sianel BBC Scotland, gyda bwletin cynharach – *The Seven* – yn cael ei ddarlledu am 7pm ar nos Wener.
[2] Dolen i gyflwyniad y BBC
[3] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023

## Yr hyn rydym ni'n ei gynnig -

Cymeradwyo cais y BBC i leihau nifer yr oriau o newyddion oriau brig sy'n ofynnol ar sianel BBC Scotland. Rydym o'r farn y byddai'r cwota newyddion diwygiedig yn briodol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ac mae gan y Cais y potensial i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr Alban o ystyried newidiadau mewn arferion gwylio.

Byddem yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith unrhyw newidiadau ar ymgysylltiad cynulleidfaoedd, er mwyn sicrhau, lle bo angen, ei fod yn parhau i addasu i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Rydym hefyd yn nodi ein gallu parhaus i ymyrryd os bydd pryderon yn codi ynghylch perfformiad y BBC yn y maes hwn.

Rydym nawr yn gofyn am safbwyntiau gan bartïon â diddordeb neu bartïon y mae hyn yn effeithio arnynt ynghylch y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn erbyn 4 Mehefin 2024.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r cynnig rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Cais y BBC

2.1 Mae'r BBC wedi cyflwyno cais i Ofcom ar gyfer newidiadau i'w Drwydded Weithredu mewn perthynas â darparu newyddion ar sianel BBC Scotland ('y Cais'). Mae fersiwn o'r Cais nad yw'n gyfrinachol wedi'i nodi'n llawn fel atodiad i'r ymgynghoriad hwn (Atodiad 8).

2.2 Datganodd y BBC yn gyhoeddus ei fwriad i wneud y newidiadau hyn ym mis Chwefror 2024 cyn cyflwyno'r Cais ffurfiol i Ofcom ym mis Mawrth 2024.[4]

2.3 I grynhoi, hoffai'r BBC weld y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'w Drwydded Weithredu:

a) lleihau faint o newyddion oriau brig y mae'n rhaid iddo ei ddarlledu ar sianel BBC Scotland yn ystod pob blwyddyn galendr, o 250 awr i 125 awr. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn wedi'u nodi yn Atodiad 2.

2.4 Mae'r BBC yn dweud y byddai'r gostyngiad yn caniatáu iddo roi nifer o newidiadau eraill ar waith i'w ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, a fydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well ar draws ei holl wasanaethau.

2.5 Mae'n cynnig y newidiadau canlynol i'w allbwn newyddion a materion cyfoes:

a) Yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol i leihau cwota'r Drwydded Weithredu, lansio rhaglen newyddion newydd 30 munud o hyd ar sianel BBC Scotland am 7pm yn ystod yr wythnos yn lle *The Nine* (rhaglen newyddion awr o hyd a ddarlledir nos Lun i nos Iau), a *The Seven* (a ddarlledir nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul);
b) Treialu podlediad materion cyfoes gweledol sy'n canolbwyntio ar yr Alban a fydd ar gael ar nifer o lwyfannau (BBC One Scotland, sianel BBC Scotland, BBC Radio Scotland, BBC Sounds a BBC iPlayer);
c) Cryfhau'r rhaglen *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland drwy ei hymestyn o fod yn rhaglen 30 munud i raglen awr o hyd sawl gwaith y flwyddyn;
d) Cynyddu'r cyllid ar gyfer *Debate Night* ar sianel BBC Scotland yn ystod y flwyddyn etholiad hon i gynyddu nifer y penodau; ac
e) Meithrin gallu i ddarparu adroddiadau mwy arloesol ar-lein am yr Alban ar wefan BBC News ac ap BBC News.

2.6 Mae fformat *The Nine* yn cael ei ddiffinio gan y BBC fel un sy'n *canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni newyddion dyddiol sy'n cynnwys straeon rhyngwladol, straeon sy'n ymwneud â'r DU a straeon cenedlaethol sy'n cael eu hadrodd o safbwynt yr Alban*. I'r gwrthwyneb, mae'r rhaglen newyddion newydd arfaethedig yn cael ei nodi yng nghyflwyniad y BBC fel un sy'n ceisio *bod yn fwy lleol a theithio o amgylch yr Alban fwy, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar straeon yr Alban ar lefel Genedlaethol, gan roi mwy o gyfleoedd i ni helpu ein cynulleidfaoedd i weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn ein darpariaeth newyddion.* Mae'r

[4] Er mwyn llywio ein hasesiad o'r Cais, fe wnaethom ofyn i'r BBC ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol drwy gyfres o gyfnewidiadau. Cyflwynodd y BBC fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Cais ym mis Ebrill 2024 i ymgorffori'r wybodaeth ychwanegol roedd wedi'i darparu, ac rydym wedi seilio ein hasesiad ar y cynnig hwn.

BBC hefyd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhaglen newyddion newydd a'i raglen ranbarthol *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland, *Ein bwriad yw i raglen newyddion newydd ar sianel BBC Scotland gael briff golygyddol gwahanol i Reporting Scotland o ran tôn a'r dewis o straeon. Bydd tôn y rhaglen newydd yn ceisio bod yn fwy anffurfiol a hygyrch i'n galluogi i apelio 'y tu hwnt i'r cadarnleoedd' at fwy o gynulleidfaoedd C2DE.* [5]

2.7 Ar ben hynny, mae'r BBC yn datgan bod *symud i raglen newyddion 30 munud o hyd am 7pm yn gyfle ar gyfer amserlen Sianel BBC Scotland. Mae'n rhoi'r opsiwn i ni ddarlledu'n gynharach raglenni sy'n cael eu chwarae yn y slot 10pm ar hyn o bryd, a fyddai, yn ein barn ni, yn denu mwy o wylwyr ar yr adeg gynharach hon. Ymhlith y teitlau mae Murder Trial, Body on the Beach, Only Child, Designing the Hebrides a Debate Night. Yn ddelfrydol, byddwn yn paru rhaglenni rhwng 9pm ac 11pm – er enghraifft, Debate Night ac yna raglen ddogfen amserol, drama wedi'i dilyn gan gomedi, teitlau ffeithiol newydd ac yna deitlau ategol o'r archif, chwaraeon byw ac yna gynnwys sy'n ymwneud â chwaraeon fel A View from the Terrace. Rydym yn rhagweld y byddai rhaglenni fel River City, y mae gwylwyr wedi arfer eu gwylio am 10pm, yn parhau yn y slot hwn.*

2.8 Yn olaf, mae'r BBC yn datgan y byddai'r cynigion yn niwtral o ran cost, ac y byddai'r arbedion yn sgil dod â *The Nine* i ben yn cael eu defnyddio yn y gyfres ehangach o ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes a gynigir gan y BBC.

## Ein dull gweithredu

2.9 Fel rhan o'n gwaith o reoleiddio'r BBC, mae'n rhaid i ni o dan Siarter a Chytundeb y BBC bennu Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC. Mae'r Drwydded Weithredu yn cynnwys set o amodau rheoleiddio sy'n briodol yn ein barn ni, i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth[6] ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus,[7] sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn cael gwasanaeth da.[8] Fe wnaethom gyhoeddi'r Drwydded Weithredu gyntaf ym mis Hydref 2017 ac ers hynny mae wedi cael ei diwygio sawl gwaith. Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom gyhoeddi Trwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC.

2.10 Mae gennym y pŵer i ddiwygio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni. Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y 'Gweithdrefnau') sy'n egluro sut rydym yn pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu, gan gynnwys nodi'r ystyriaethau rydym yn rhoi sylw iddynt wrth amrywio'r Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

---

[5] Dolen i gyflwyniad y BBC - para 2.4.1.
[6] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (erthygl 5 yn y Siarter).
[7] Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC: 1) darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; 2) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; 3) dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau; 4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU; a 5) adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd (erthygl 6 yn y Siarter).
[8] Erthygl 46(3) yn y Siarter.

2.11 Yn ogystal â gofyn am ostyngiad yn y cwota newyddion, mae cyflwyniad y BBC hefyd yn nodi cynigion sy'n ymwneud ag amserlennu a newidiadau golygyddol i'w allbwn newyddion a materion cyfoes. Rydym wedi ystyried y cynigion hyn, ond nid yw amserlennu a phenderfyniadau golygyddol yn fater i Ofcom o dan Siarter a Chytundeb y BBC. Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y BBC. Mae hefyd yn gwbl gyfrifol am yr holl benderfyniadau golygyddol, cyllidebol ac amserlennu.

2.12 Ein rôl ni yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa a'i ddal i gyfrif am gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Rydym hefyd yn rheoleiddio cwynion a safonau golygyddol y BBC, ac yn gweithio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.13 Mae'r BBC yn nodi yn ei gyflwyniad bod y ffordd mae cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gafael ar eu newyddion yn newid, gyda'r niferoedd sy'n cael gafael ar newyddion ar-lein yn cynyddu a'r niferoedd sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn lleihau. Mae'n dweud bod yn *rhaid iddo felly addasu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal i gael eu hysbysu a'u haddysgu mewn ffordd sy'n eu gwasanaethu orau*. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys cynigion y mae'r BBC yn dweud na allant ddatblygu ymhellach am resymau cyllidebol, oni bai fod y cwota newyddion yn cael ei leihau; felly mae wedi cyflwyno'r Cais i Ofcom.

2.14 Nid ydym wedi ystyried a allai'r BBC fforddio darparu'r cynigion eraill yn ei gyflwyniad, yn ogystal â'r cynnwys newyddion llinol y mae eisoes yn ei ddarparu o dan rwymedigaethau ei drwydded bresennol.

2.15 Rydym yn cydnabod bod angen i'r BBC allu esblygu ac arloesi i fodloni ei ofynion – yn benodol, cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus – wrth i arferion cyfryngau cynulleidfaoedd newid, ac y gall hyn o bryd i'w gilydd olygu newidiadau i'r Drwydded Weithredu. Roedd hyn yn un o'r rhesymau dros y newidiadau a wnaed i'r Drwydded Weithredu ym mis Mawrth 2023. Fe wnaethom ddiweddaru'r Drwydded i gynnwys tri amcan, sef rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, ymgorffori darpariaeth ar-lein a bod yn fwy tryloyw.

2.16 Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC, fe wnaethom gadw rhai cwotâu penodol i wasanaeth ond disodli rhai eraill ag amodau newydd a gofynion o ran tryloywder. Fe wnaethom gadw cwotâu newyddion a materion cyfoes i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cryn dipyn o'r cynnwys hwn ar deledu a radio sy'n cael eu darlledu a phennu amodau newydd i'w gwneud yn hawdd dod o hyd i'r cynnwys hwn ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gael yn Atodiad 1.

2.17 Wrth lunio ein safbwynt dros dro ar Gais y BBC, rydym wedi ystyried yr effaith ar gynulleidfaoedd ac ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gall cynigion sy'n cael effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol arwain at lai o fuddsoddiad a/neu gwmnïau'n gadael neu ddim yn ymuno â'r farchnad. Gall canlyniadau o'r fath roi cynulleidfaoedd dan anfantais drwy arwain at lai o ddewis ac ansawdd.

2.18 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae ein hasesiad o'r effaith wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad hwn ac yn benodol ym mhennod 3.

2.19 Rydym hefyd wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 3.

## Yr ymgynghoriad hwn

Rydym wedi ystyried y Cais ac wedi nodi ein hasesiad cychwynnol a’r amrywiadau arfaethedig i’r Drwydded Weithredu yn y ddogfen hon (os byddwn yn cymeradwyo’r Cais). Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ein hasesiad cychwynnol a’r newidiadau arfaethedig i’r Drwydded Weithredu ac yn gwahodd ymatebion erbyn 4 Mehefin 2024. Ewch i Atodiad 4 i gael rhagor o wybodaeth am ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

# 3. Asesu Cais y BBC

## Rhagarweiniad

### Mae arferion y cyfryngau yn newid

3.1 Mae arferion cyfryngau cynulleidfaoedd yn parhau i newid ac mae lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn parhau i ostwng. Yn 2023, roedd 85% o oedolion yn y DU (44 miliwn) yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos, sef gostyngiad o 8% ers 2019.[9]

3.2 Mae'r arferion hyn yn ymestyn i newyddion ac mae ein dadansoddiad o ddata gwylio yn dangos bod 57% o oedolion yn y DU (29 miliwn) yn 2023 yn gwylio unrhyw newyddion ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Mae hyn yn ostyngiad o 19% o gymharu â 2019, hyd yn oed yn fwy na'r gostyngiad cyffredinol mewn lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu.[10] O gymharu, mae'r defnydd o ffynonellau ar-lein wedi cynyddu dros amser ac mae 68% o oedolion yn cael eu newyddion fel hyn yn 2023.[11]

3.3 Mewn araith ddiweddar, nododd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC fod cyllideb y BBC wedi gostwng 30% mewn termau real dros y 14 mlynedd diwethaf. Rydym hefyd yn cydnabod, er bod gan y BBC incwm cyson o ffi'r drwydded, fod costau cynhyrchu cynyddol, setliad ffi'r drwydded yn 2022 a chwyddiant cyffredinol yn golygu bod llai o arian ar gael iddo. Fodd bynnag, rhaid iddo sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol i bob cynulleidfa a pharhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys o safon yn y DU. Felly, wrth i arferion gwylio barhau i newid, mae'n bwysig bod gan y BBC hyblygrwydd i arloesi ei wasanaethau a'i ddarpariaeth cynnwys, er mwyn iddo allu parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd mewn gwahanol ffyrdd.

### Mae cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gafael ar fwy o newyddion ar-lein

3.4 Yn unol ag ymddygiad cynulleidfaoedd ledled y DU, mae lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn yr Alban hefyd wedi bod yn gostwng yn raddol, yn enwedig yn dilyn cynnydd mewn gwylio yn 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Yn 2023, roedd 84% o oedolion yn yr Alban, ar gyfartaledd, yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos, sef gostyngiad o 9 pwynt canran o gymharu â 2019.

3.5 Yn ôl ein dadansoddiad, 58% (2 filiwn) oedd cyfran yr oedolion yn yr Alban a gafodd afael ar unrhyw newyddion drwy deledu wedi'i ddarlledu yn 2023. Roedd hyn yn ostyngiad o 18% ers 2019 – yn debyg i'r DU drwyddi draw.[12]

---

[9] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 3 munud a mwy yn olynol.
[10] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig, ar gyfer unrhyw newyddion. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 3 munud a mwy yn olynol.
[11] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion. Mae'r ffynonellau ar-lein yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a phob gwefan/ap arall mae modd cael gafael arnynt drwy unrhyw ddyfais
[12] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 3 munud a mwy yn olynol.

3.6 Mae'r defnydd o lwyfannau gwahanol ar gyfer cael gafael ar newyddion yn yr Alban yn debyg iawn i'r defnydd ledled y DU, er bod cyfran yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio ffynonellau newyddion ar-lein wedi cynyddu o 55% yn 2019 i 65% yn 2023.[13]

3.7 Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys newyddion a materion cyfoes yn yr Alban, ar draws ei holl wasanaethau, ac mae'n nodi hynny yn ei gyflwyniad.[14] Mae'n datgan bod tua 985 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yn cael eu darlledu ar y teledu, a bod dros 4,000 o oriau ar y radio a dros 7,500 o straeon yn Saesneg a Gaeleg ar gael i ddefnyddwyr ar wefan ac ap y BBC.

3.8 Y llynedd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC, fe wnaethom adrodd bod y BBC yn parhau i gyflawni'n dda yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn benodol o ran Diben Cyhoeddus 1, i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas. Roedd y BBC hefyd wedi rhagori ar ei gwota o 250 awr o ddarpariaeth newyddion oriau brig ar sianel BBC Scotland ac wedi darlledu 278 awr.

## Lansio sianel BBC Scotland yn 2019

3.9 Yn 2018, fe wnaethom gynnal asesiad rheoleiddio cyn lansio sianel BBC Scotland. Fel rhan o'n hasesiad o gystadleuaeth BBC Scotland, fe sylwom fod y BBC wedi nodi amrywiaeth o wahanol fathau o werth y byddai'r sianel newydd yn ei ddarparu, yn ei farn ef. Rhoddodd y BBC bwys penodol ar y fantais a nododd yn sgil ehangu ei ddarpariaeth newyddion yn yr Alban.

3.10 Fe wnaethom gymeradwyo lansio'r sianel newydd yn 2018. Fe ddywedom ein bod yn cytuno â'r BBC y byddai'r sianel arfaethedig yn canolbwyntio'n fwy ar yr Alban yn ei darpariaeth newyddion, ond fe wnaethom nodi ein pryderon ynghylch y cynnig newyddion dyddiol gwreiddiol awr o hyd a gyflwynwyd gan y BBC cyn ei lansio. Fe wnaethom nodi yn ein datganiad, er ein bod yn derbyn bod tystiolaeth ymchwil y BBC yn awgrymu cefnogaeth gyhoeddus eang yn yr Alban i gael mwy o newyddion sy'n adlewyrchu safbwyntiau'r Alban, roeddem o'r farn bod llai o gonsensws nag a awgrymwyd yn asesiad y BBC ynghylch gwerth yr awr o newyddion yn benodol.

3.11 Ym mis Ionawr 2019, fe wnaethom gyhoeddi datganiad ar amrywiad i'r Drwydded Weithredu, cyn lansio sianel BBC Scotland. Gan roi sylw penodol i Ddibenion Cyhoeddus 1 a 4, fe wnaethom bennu amod Trwydded sy'n mynnu bod sianel BBC Scotland yn darparu o leiaf 250 awr o raglenni newyddion yn ystod oriau gwylio brig.

3.12 Yn ein penderfyniad i gyflwyno cwota, fe ddywedom ym mharagraff 2.63 o Y Sianel BBC Scotland newydd: Penderfyniad ynghylch amrywio Trwydded Weithredu Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC, *O ystyried y Dibenion Cyhoeddus yn benodol o ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, ac i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, fe wnaethom gynnig cynnwys yn y Drwydded amod sy'n mynnu bod sianel BBC Scotland yn darparu nifer yr oriau newyddion y mae'r BBC wedi'u cynnig.*

[13] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion. Roedd y defnydd o ffynonellau ar-lein ar gyfer newyddion ledled y DU yn 66% yn 2019 ac yn 68% yn 2023.
[14] Dolen i gyflwyniad y BBC - para 2.2.

## Ein hasesiad

### Effaith ar gynulleidfaoedd

**Lleihau'r cwota newyddion**

3.13 Yn gyffredinol, mae gwasanaethau newyddion y BBC ar deledu, radio ac ar-lein yn cyrraedd 67% o gynulleidfaoedd yn yr Alban.[15] Ar sianel BBC Scotland, mae'r BBC yn rhagori ar ei oriau o gymharu â'i gwota newyddion presennol, ac yn ei gyflwyniad mae'n nodi ei ymrwymiad i barhau i ddarparu cynnwys newyddion ar y sianel.

3.14 Fodd bynnag, mae lefelau gwylio cyffredinol sianel BBC Scotland wedi bod yn gostwng. Mae nifer cyfartalog y bobl sy'n gwylio'r sianel bob wythnos wedi gostwng 14% ers 2019, i 710,000 yn 2023 (14.4% o'r boblogaeth yn yr Alban).[16]

3.15 Mae lefelau gwylio cynnwys newyddion ar sianel BBC Scotland wedi gostwng hefyd. Roedd nifer y cynulleidfaoedd yn gymharol sefydlog am dair blynedd ar ôl ei lansio yn 2019 (cyrhaeddiad wythnosol oedolion o 27% ar gyfartaledd yn 2019-2021). Gwelwyd hyn yn gostwng wedyn ac yn 2023 roedd y cyfartaledd yn 21%, sef gostyngiad o 6 phwynt canran.[17]

3.16 Mae ein dadansoddiad ein hunain o ddata gwylio yn dangos bod cynulleidfa gyfartalog *The Nine*, rhaglen newyddion flaenllaw'r sianel, wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2020, o 17,000 o wylwyr ar gyfartaledd yn 2020 i 10,000 yn 2023. Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan y BBC a oedd yn gofyn am farn cynulleidfaoedd ar *The Nine* yn dangos bod rhai gwylwyr yn teimlo nad oedd y rhaglen yn canolbwyntio ddigon ar newyddion yr Alban.[18]

3.17 Er bod y lefelau gwylio cynnwys newyddion drwy deledu sy'n cael ei ddarlledu yn gostwng, BBC One yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf ar draws llwyfannau ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Mae'r defnydd o gynnwys newyddion rhanbarthol hefyd yn uwch ymysg cynulleidfaoedd yn yr Alban o gymharu â'r DU drwyddi draw.[19] O ran boddhad cyffredinol â'r BBC, mae cynulleidfaoedd sy'n dweud eu bod yn gwylio sianel BBC Scotland bob wythnos yn fwy bodlon o lawer na'r oedolyn cyfartalog yn yr Alban. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys gwylwyr sianel BBC Scotland, roi sgôr i'r BBC o ran 'newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol', rhoddwyd sgôr lai boddhaol i hyn o gymharu ag agweddau eraill ar allbwn y BBC.

3.18 Mae ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* wedi canfod bod Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu hystyried yn arbennig o bwysig ar gyfer

---

[15] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023
[16] Barb: Mae 15+ munud yn cyrraedd meini prawf a phob unigolyn 4+ oed (gostyngodd ffigyrau ar gyfer oedolion 16+ a wyliodd y sianel bob wythnos 14% ers 2019, i 692,000 o oedolion yn 2023 (16.3% o boblogaeth oedolion yn yr Alban).
[17] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 3 munud a mwy yn olynol.
[18] Dolen i gyflwyniad y BBC - crynodeb o Ymchwil Hook, tudalen 12.
[19] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig.

darparu newyddion a materion cyfoes ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, ac mai teledu yw'r llwyfan mwyaf dibynadwy sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o hyd ar gyfer newyddion. [20]

3.19 Mae cynnig y BBC i ddarparu mwy o gynnwys newyddion ar-lein, ar yr un pryd â pharhau i ddarparu cynnwys ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, yn cyd-fynd â'r newidiadau yn nefnydd cynulleidfaoedd ar draws y farchnad o sianeli newyddion traddodiadol i lwyfannau ar-lein. Mae hefyd yn gyson â'r amcanion a bennwyd gennym ar gyfer y Drwydded Weithredu newydd. Fe ddywedom fod angen mwy o hyblygrwydd ar y BBC i allu darparu i gynulleidfaoedd lle roedden nhw eisiau gwylio a gwrando ar gynnwys.[21]

**Ystyried y newidiadau arfaethedig eraill i allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC**

3.20 Mae'r BBC yn cynnig cynyddu hyd bwletin 18:30 *Reporting Scotland* ar BBC One Scotland ar sawl achlysur drwy gydol y flwyddyn, o hanner awr i awr. Er bod y patrwm gwylio cyffredinol ar gyfer *Reporting Scotland* wedi gostwng,[22] mae ein dadansoddiad yn dangos bod yr awydd am newyddion rhanbarthol ymysg oedolion yn yr Alban yn uwch nag ar draws y DU drwyddi draw, gyda 44% yn ei wylio bob wythnos yn 2023 o gymharu â 40% ledled y DU.[23] Mae'r BBC hefyd yn cynnig ymestyn y gyfres gyfredol o raglenni materion cyfoes, *Debate Night*, o 24 i 30 pennod yn 2024. Mae cynulleidfa gyfartalog *Debate Night* wedi cynyddu o 19,000 yn 2019 i 36,000 yn 2023 [24]sy'n dangos awydd cynyddol gan wylwyr yn yr Alban am raglenni materion cyfoes perthnasol, sy'n debygol o gynyddu mewn blwyddyn Etholiad Cyffredinol.

3.21 Mae podlediad gweledol newydd ar faterion cyfoes sy'n canolbwyntio ar yr Alban hefyd yn cael ei gynnig gan y BBC, ac meddai: *Rydym ni'n credu y bydd y podlediad hwn yn taro tant gyda chynulleidfaoedd. Yn gyntaf, oherwydd bod awydd ymysg cynulleidfaoedd eisoes yn bodoli gyda Newscast yn perfformio'n well na'r disgwyl yn yr Alban o gymharu â maint y boblogaeth. Mae 11% o gynulleidfaoedd teledu Newscast yn yr Alban, er bod y wlad yn cynrychioli 8.5% o gyfanswm poblogaeth y DU.* Mae ein dadansoddiad ein hunain yn dangos bod gwrandawyr podlediadau yn yr Alban yn fwy tebygol na gwrandawyr ledled Prydain Fawr o wrando ar bodlediadau newyddion a materion cyfoes a phodlediadau'r llywodraeth a gwleidyddiaeth.[25]

3.22 Mae cynnig y BBC i wella ei ddarpariaeth newyddion ar-lein yn yr Alban yn cyd-fynd â thueddiadau cyffredinol cynulleidfaoedd o ran cael gafael ar newyddion, gyda gwefan/ap BBC News yn parhau i fod y brif ffynhonnell ar-lein a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn yr Alban ar gyfer newyddion.[26] Mae'r BBC yn nodi yn ei gyflwyniad *ein bod hefyd yn bwriadu amrywio ein cynnig ar-lein i sicrhau bod cynulleidfaoedd yr Alban yn cael adroddiadau byw, esboniadau a gwaith gwirio ffeithiau yr un mor ddwfn ac aml â chynulleidfaoedd mewn rhannau eraill o'r DU.*

---

[20] o ran dibynadwyedd, roedd newyddion teledu wedi sgorio'n uwch na phapurau newydd, radio a chyfryngau cymdeithasol

[21] Paragraff 7.43

[22] Roedd nifer gyfartalog yr oedolion yn yr Alban sy'n gwylio *Reporting Scotland* yn 248,000 yn 2023, gostyngiad o 37% ers 2020.

[23] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd, 3 munud a mwy yn olynol.

[24] Data 28 diwrnod cyfunol Barb ar gyfer oedolion 16+ oed, setiau teledu yn unig.

[25] IPA TouchPoints 2023 Superhub. Mae 25% o wrandawyr podlediadau wythnosol ledled Prydain Fawr yn gwrando ar bodlediadau newyddion a materion cyfoes o gymharu â 32% yn yr Alban.

[26] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023

**Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd yn yr Alban**

3.23 Pan gynigiwyd sianel BBC Scotland yn 2017, nodwyd bod y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes yn arbennig o bwysig ac yn ganolog i gylch gwaith y sianel. Roedd y BBC, yn ei gyflwyniad i Ofcom, wedi diystyru'r syniad o symud y rhaglen newyddion arfaethedig i slot arall lle byddai ochr yn ochr â bwletin newyddion arall y BBC, gan nodi costau uwch oherwydd goblygiadau gweithredol. Roedd hefyd wedi ystyried yr opsiwn o raglen 30 munud yn hytrach nag un awr o hyd, ond gwrthododd hyn ar sail y ffaith na fyddai'n arwain at lawer o arbedion cost ac y byddai'n lleihau'r budd i gynulleidfaoedd y bwriadwyd y slot awr ar eu cyfer. Ers hynny, mae'r BBC yn nodi bod pethau wedi newid. Yn ei gyflwyniad, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod ymchwil a gynhaliwyd ganddo ym mis Mawrth 2024 yn dangos newid o ran yr hyn mae cynulleidfaoedd yn ei ffafrio, sef bwletin byrrach, wedi'i amserlennu'n gynharach gyda'r nos ac sy'n canolbwyntio'n f wy ar straeon rhanbarthol.[27]

3.24 Mae'n ymddangos bod y slot amser newydd a gynigir, sef 7pm a newid fformat y rhaglen newydd, gyda mwy o ffocws ar straeon newyddion yr Alban[28], yn cyd-fynd yn well â'r hyn mae cynulleidfaoedd wedi dweud bod arnynt ei eisiau.

3.25 Mae'r BBC yn cyfeirio yn ei gyflwyniad ei fod yn credu y byddai'r newidiadau arfaethedig ar gyfer y rhaglen newyddion newydd – rhaglen fyrrach yn gynharach yn yr amserlen – yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn yr Alban yn well drwy ddiwallu anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn well o ran rhaglenni: *rydym ni'n rhagweld y bydd darlledu'r rhaglen newyddion 7pm newydd yn sicrhau llif gwell i amserlen sianel BBC Scotland, gan ddechrau gyda newyddion rhwng 7pm a 7.30pm, ac yna gynnig cynnwys ffeithiol, comedi a drama i gynulleidfaoedd am weddill y noson. Rydym ni wedi gweld bod cadw gwylwyr ar ôl The Nine wedi bod yn heriol...*[29]

3.26 O ystyried mai cynigion y BBC ar gyfer y rhaglen newyddion newydd yw darparu newyddion rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar yr Alban, ni fyddai cynulleidfaoedd sianel BBC Scotland yn cael newyddion rhyngwladol, cenedlaethol na rhanbarthol ar y sianel mwyach. Fodd bynnag, mae'r newyddion hwn ar gael i gynulleidfaoedd yn yr Alban ar wasanaethau eraill y BBC fel BBC One, radio'r BBC a gwasanaethau ar-lein y BBC. Os byddwn yn cymeradwyo'r Cais, byddem yn disgwyl i'r BBC fonitro'r agwedd hon ar y cynnig yn ofalus, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Byddem hefyd yn monitro drwy ein fframwaith perfformiad ac os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y BBC i'n galluogi i asesu perfformiad, byddwn yn gofyn amdani.

3.27 Byddai gofynion tryloywder sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r Drwydded Weithredu yn helpu ymhellach i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn yr Alban. Mae'r gofynion hyn yn golygu y byddai angen i'r BBC ddangos tystiolaeth o sut mae ei ddull o ddarparu newyddion ar-lein, er enghraifft, yn hyrwyddo ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn yr Alban. Byddem yn monitro hyn drwy ein rhaglen berfformiad.

3.28 Rydym yn nodi bod rhai o'r newidiadau arfaethedig hyn yn rhai dros dro, er enghraifft cynllun y BBC i ymestyn rhaglen *Debate Night* ar gyfer gweddill 2024 yn unig. Er ein bod yn cydnabod y

[27] Dolen i gyflwyniad y BBC - tudalen 12
[28] Dolen i gyflwyniad y BBC - para 2.4.1
[29] Dolen i gyflwyniad y BBC - tudalen 13

gallai cynulleidfaoedd fod yn fwy tebygol o chwilio am raglenni o'r fath yn ystod blwyddyn etholiad, mae rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn bwysig drwy gydol y flwyddyn ac nid yn ystod blwyddyn etholiad yn unig. Felly, byddem yn disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd yn barhaus.

### Yr effaith ar gystadleuaeth

3.29 Mae'r BBC yn datgan yn ei Gais nad yw'n credu y bydd effaith niweidiol ar y farchnad o ganlyniad i ddarlledu rhaglen newyddion 7pm yn lle *The Nine* a llenwi'r slot 9pm gyda chynnwys amrywiol. Mae'n nodi y bydd y rhaglen newyddion 7pm newydd yn cael ei darlledu ar yr un pryd ag o leiaf dair rhaglen newyddion arall. [30] Fodd bynnag, mae'n datgan y bydd y rhaglen newydd hon yn canolbwyntio ar newyddion yr Alban yn wahanol i unrhyw un o'r rhaglenni eraill a ddangosir ar hyn o bryd ac mae demograffeg y gynulleidfa ar gyfer y gwahanol raglenni newyddion yn wahanol.[31] Ein barn ni yw bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i'r Cais yn isel.

## Ein safbwynt dros dro

3.30 Rydym yn cynnig derbyn y cynnig i amrywio lefel y cwota newyddion o 250 awr i 125 awr. Mae geiriad arfaethedig amod y drwydded amrywiol yn Atodiad 2.

3.31 Yn gyffredinol, yng ngoleuni'r ffaith bod arferion gwylio newyddion cynulleidfaoedd yn yr Alban yn newid, gyda newid parhaus i wasanaethau ar-lein, rydym yn cytuno y dylai'r BBC fod yn arloesi er mwyn addasu i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ac i ddenu cynulleidfaoedd yr Alban at ei allbwn newyddion a materion cyfoes. Rydym yn ymwybodol, wrth arloesi ac arbrofi i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd, efallai na fydd y BBC bob amser yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu ei bod yn bwysig bod y BBC yn gwneud hyn.

3.32 Mae newyddion yn rhan annatod o arlwy'r BBC ac mae'r ddarpariaeth yn bwysig drwy gydol y flwyddyn (nid mewn blwyddyn etholiad yn unig). Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn gwerthfawrogi newyddion a materion cyfoes a byddem yn disgwyl i'r BBC sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar ôl etholiad. Mae'n rhaid i'r BBC, o dan ei Drwydded Weithredu, sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Hefyd, byddai gofynion tryloywder yn y Drwydded Weithredu bresennol yn sicrhau bod y BBC yn cyhoeddi ei gynlluniau ynghylch sut mae'n bwriadu diwallu anghenion cynulleidfaoedd yr Alban, a fyddai'n ein galluogi i olrhain ei berfformiad yn y maes hwn a'i ddal i gyfrif, fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar berfformiad y BBC. Byddem yn rhoi sylw penodol i sut mae'r BBC yn dweud ei fod yn mynd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yr Alban am newyddion yn ei Gynllun Blynyddol y flwyddyn nesaf.

---

[30] Un gan sianel BBC News a dwy gan ddarlledwyr eraill (Channel 4 ac ITV). Mae rhaglen *Channel 4 News* Channel 4 yn cael ei darlledu rhwng 7pm ac 8pm o nos Lun i nos Wener, ac mae *ITV Evening News* yn darlledu'n rheolaidd rhwng 6.30pm a 7.30pm ar STV ac ITV ar gyfer gwylwyr yn yr Alban.

[31] Mae'r BBC yn nodi yn ei gyflwyniad bod *59% o gynulleidfa The Nine o ddemograffeg C2DE tra bo 63% o gynulleidfa Channel 4 News yn ABC1 a dim ond 37% yn C2DE. Rydym yn bwriadu i'r rhaglen newyddion 7pm newydd fod â demograffeg debyg i gynulleidfa The Nine.*

Cwestiwn yr ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'r cynnig i leihau'r cwota newyddion ar sianel BBC Scotland 50% o'r 250 awr presennol yn ystod oriau brig y flwyddyn galendr i 125 awr? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

# A1. Fframwaith Cyfreithiol

A1.1 Mae pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf),[32] sy'n nodi, at ddibenion rheoleiddio'r BBC, y bydd gennym bwerau a dyletswyddau o'r fath y gellir eu rhoi i ni gan neu o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y Siarter)[33] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y Cytundeb).[34]

A1.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[35] Mae'r rhain yn cynnwys ein prif ddyletswydd, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi bod yn rhaid i egwyddorion rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, egwyddorion penodol eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni. Rydym yn credu bod yr egwyddorion canlynol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

a) Pa mor ddymunol yw hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;
b) Anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;
c) Barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac
d) Y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol ardaloedd o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[36]

A1.3 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw i'r canlynol, fel sy'n ymddangos i ni'n berthnasol yn yr amgylchiadau, wrth gynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC:[37]

a) Amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth[38] a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
b) Pa mor ddymunol yw diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU; a
c) Y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol.[39]

---

[32] Adran 198 o'r Ddeddf.
[33] Y Siarter.
[34] Y Cytundeb.
[35] Erthygl 45(1) yn y Siarter.
[36] Adran 3(4) o'r Ddeddf.
[37] Erthygl 45(2) yn y Siarter.
[38] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 yn y Siarter).
[39] Mae dyletswyddau cyffredinol y BBC wedi'u nodi yn Erthyglau 9 i 18 yn y Siarter ac maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ddyletswydd i hyrwyddo arloesedd technolegol, gan gynnwys drwy ganolbwyntio ar arloesi technolegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau cyffredinol ar y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys, yng Nghymal 61, gofyniad i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr eraill (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) yn gallu cael gafael ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a fwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol sydd ar gael neu a all fod ar gael yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys (er

A1.4 O'r pum Diben Cyhoeddus,[40] mae'r canlynol yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:[41]

A1.5 Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; a

A1.6 Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny.

A1.7 Rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 20(3)(d) yn y Siarter, ei bod yn rhaid i'r BBC bennu mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny lle bo'n briodol) a chasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[42] wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau cyhoeddus.[43]

A1.8 Ar wahân i hynny, rydym yn nodi, yn rhinwedd Erthygl 46(4)(d) yn y Siarter, y gall Ofcom bennu mesurau perfformiad (yn ychwanegol at y rhai a bennwyd gan y BBC) ac y gall gasglu pa wybodaeth bynnag sy'n angenrheidiol i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wrth gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.[44] Hefyd, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel rydym yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad.[45]

A1.9 Yn ogystal â phennu mesurau perfformiad, mae'n rhaid i ni bennu Trwydded Weithredu (y Drwydded Weithredu) sy'n cynnwys set o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw.[46] Mae'r Siarter yn datgan bod yn rhaid i'r Drwydded Weithredu gynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) Cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
b) Sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
c) Sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.[47]

A1.10 Mae Atodlen 2 o'r Cytundeb yn cynnwys rhai rheolau pellach ynghylch yr amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i Ofcom eu pennu drwy'r Drwydded Weithredu.

A1.11 Efallai y byddwn yn amrywio'r Drwydded Weithredu, ar ôl ymgynghori â'r BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni.

---

enghraifft) darlledu, ffrydio neu ddarparu cynnwys ar-alw, boed hynny drwy rwydweithiau daearol, lloeren, cebl neu fand eang (sefydlog neu ddi-wifr) neu drwy'r rhyngrwyd.

[40] Erthygl 6 yn y Siarter.

[41] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw'r ail Drwydded Weithredu yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am bennu Trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

[42] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi mewn rhestr sy'n cael ei chynnal a'i chyhoeddi gan y BBC: Rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

[43] Cymal 14(1) o'r Cytundeb.

[44] Cymal 14(2) o'r Cytundeb.

[45] Cymal 14(4) o'r Cytundeb.

[46] O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom bennu Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

[47] Erthygl 46(3) yn y Siarter.

A1.12 Yn ogystal â phennu Trwydded Weithredu, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi fframwaith gweithredu.[48] Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn tri maes, sef safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad. Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn cynnwys y 'Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r Drwydded Weithredu' (y 'Gweithdrefnau')[49] sy'n egluro sut rydym yn pennu ac yn gweinyddu trefn y Drwydded Weithredu a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

A1.13 Mae'r Gweithdrefnau'n nodi'r ystyriaethau y bydd Ofcom yn rhoi sylw iddynt wrth bennu neu ddiwygio'r Drwydded Weithredu, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol perthnasol, natur orfodadwy amodau'r Drwydded Weithredu a pha mor ddymunol yw sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac yn gallu cael eu gorfodi os bydd diffyg cydymffurfio.[50]

[48] Erthygl 46(2) yn y Siarter a Chymal 5(1) o'r Cytundeb.
[49] Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd: Gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio'r drwydded weithredu, 2017.
[50] Y Gweithdrefnau, paragraffau 1.11 i 1.20.

# A2. Amod diwygiedig arfaethedig y Drwydded Weithredu

A2.1 Mae’r Atodiad hwn yn nodi amod presennol y Drwydded Weithredu sy’n ymwneud â gofynion y cwota newyddion ar sianel BBC Scotland; ac mae’n cymharu hwn â’r amod diwygiedig arfaethedig.

A2.2 Mae’r amod presennol - **4.47.2** yn y Drwydded Weithredu yn darllen fel a ganlyn:

a) O ran BBC Scotland, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf **250 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion yn ystod oriau Gwylio Brig, ym mhob Blwyddyn Galendr.

A2.3 Rydym yn cynnig diwygio’r amod, fel a ganlyn:

a) O ran BBC Scotland, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf **125 awr** yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion yn ystod oriau Gwylio Brig, ym mhob Blwyddyn Galendr.

# A3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A3.1 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[51]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A3.2 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[52]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.3 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym ni'n asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A3.4 Gan fod cynigion y BBC yn effeithio ar sianel BBC Scotland ac, felly, ar bobl yr Alban, fe wnaethom hefyd ystyried yr effaith ar y rhanbarth hwn. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cynigion yn debygol o gael effaith niwtral i gadarnhaol ar bobl yr Alban am y rhesymau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Ar ben hynny, efallai y bydd cynnig y BBC yn effeithio'n gadarnhaol ar gynulleidfaoedd C2DE am y rhesymau a nodir yng nghais y BBC.

A3.5 Er y byddai cynigion y BBC yn parhau i ddarparu newyddion ar wasanaethau llinol, mae rhai o'r newidiadau'n cynnig symud cyfran o gynnwys newyddion oddi wrth ddarlledu llinol at lwyfannau a mathau eraill o gyfryngau, fel ar-lein a phodlediadau. Felly, roeddem wedi ystyried yr effaith ar gydraddoldeb ar grwpiau a allai ffafrio gwasanaethau llinol traddodiadol, yn enwedig y rheini o ddemograffeg hŷn. Roedd dadansoddiad a gynhaliwyd gan Ofcom, ynghyd â data a ddarparwyd yng nghyflwyniad y BBC, yn dangos, er bod demograffeg pobl hŷn yn gwylio'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar sianel BBC Scotland, eu bod yn gwneud hynny lai a llai. Felly, roeddem o'r farn bod unrhyw effaith niweidiol ar y grŵp hwn yn debygol o fod yn fach iawn, ac mae'n debygol o gael ei liniaru gan gynlluniau arfaethedig y BBC i ddarparu pecyn o gynnwys newyddion a materion cyfoes a fydd, yn ôl y BBC, yn ei alluogi i wasanaethu pob cynulleidfa yn well. Byddem yn croesawu ymatebion i'n hymgynghoriad ar yr effeithiau posib ar gydraddoldeb.

A3.6 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, ee PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.

[51] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[52] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 4 Mehefin 2024.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb o https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/bbc-scotland-news-provision. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at BBCScotlandchannelconsultation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 4 Mehefin 2024.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Content Policy Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu

> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai'n ddefnyddiol petai hi'n bosib i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 7. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A4.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â BBCScotlandchannelconsultation@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad cyn diwedd mis Mehefin 2024.

A4.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.

A4.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym wrth ein bodd o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A4.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A5.1 Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A5.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A5.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A5.6 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A5.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.8 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A7. Y cwestiwn ymgynghori

A7.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn egluro safbwynt dros dro Ofcom ar gais gan y BBC i newid ei Drwydded Weithredu, er mwyn lleihau'r cwota ar gyfer rhaglenni newyddion sy'n cael eu dangos ar sianel BBC Scotland. Byddem yn croesawu safbwyntiau pobl eraill ar hyn. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn cael ei defnyddio i gyhoeddi datganiad sy'n nodi canlyniadau terfynol ein hasesiad, yr ydym yn bwriadu ei gwblhau cyn diwedd Mehefin 2024.

> Cwestiwn yr ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno ag asesiad dros dro Ofcom a'r cynnig i leihau'r cwota newyddion ar sianel BBC Scotland 50% o'r 250 awr presennol yn ystod oriau brig y flwyddyn galendr i 125 awr? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

# A8. Cyflwyniad y BBC

A8.1 Ychwanegwch ddolen i gyflwyniad y BBC